


Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?

## Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid

Rhagfyr 2016


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?

## Adroddiad yr ymchwilliad i Waith Ieuenctid

Rhagfyr 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Lynne Neagle AC (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Torfaen



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Michelle Brown AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Darren Millar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Julie Morgan AC**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol ... 5
01. Cyflwyniad ... 12
02. Sut beth yw gwasanaeth ieuenctid heddiw? ... 13
Crynodeb o dystiolaeth y Gweinidog ... 15
Safbwynt y Pwyllgor ... 16
03. Pa rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae? ... 17
Crynodeb o dystiolaeth y Gweinidog ... 20
Safbwynt y Pwyllgor ... 21
04. Pa fath o wasanaeth ieuenctid sydd ei eisiau ar Gymru? ... 23
Crynodeb o dystiolaeth y Gweinidog ... 27
Safbwynt y Pwyllgor ... 29
05. Grant Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ... 32
Atodiad A – Tystion ... 33
Atodiad B – Tystiolaeth Ysgrifenedig ... 34
Atodiad C – Digwyddiad i Randdeiliaid - Dydd Mercher 28 Medi - Cynrychiolwyr 36
Atodiad Ch – Cefndir polisi ... 38

# Crynodeb gweithredol

> "Dylid bod mwy o wasanaethau ieuenctid ledled Cymru. Mae angen mwy o arian i dyfu mwy o wasanaethau - mae gormod yn cael eu torri gan gynghorau. Ni all pob un o fy ffrindiau eu defnyddio gan eu bod yn byw yn bell o bobman. Mae gweithwyr ieuenctid yn anhygoel ac maen nhw'n ein helpu ni - maen nhw'n achub bywydau ☺"
>
> **Ymateb person ifanc i arolwg y Pwyllgor**

**1.** Cred y Pwyllgor fod sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad at wasanaethau ieuenctid yn hanfodol er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. I lawer o bobl ifanc, mae cymryd rhan mewn prosiect penodol, neu gydberthynas â gweithiwr ieuenctid penodol, wedi bod yn gatalydd i'w helpu i ddatblygu sgiliau a hyder a gwneud dewisiadau gwell yn eu bywydau.

**2.** Yn ystod ein hymchwiliad ciplun, clywodd y Pwyllgor gan dros 1,500 o bobl ifanc. Gwnaethant sôn am y gwerth y maent yn ei roi ar waith ieuenctid a'i bwysigrwydd yn eu bywydau. Roedd yr adborth yn glir - pan fo darpariaeth gwaith ieuenctid yn diflannu o fywyd person ifanc, mae'r effaith yn sylweddol.

## Sut beth yw gwaith ieuenctid heddiw?

**3.** Mae pwysau ariannu wedi cael effaith ddifrifol ar waith ieuenctid dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau ieuenctid gan awdurdodau lleol, gan gynnwys y cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw, wedi gostwng bron 25 y cant dros y pedair blynedd diwethaf.[1] Er bod gan y sector gwaith ieuenctid statudol fynediad at ffynonellau eraill o gyllid, dyma'r brif ffynhonnell.

**4.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw pwysau ariannu o'r fath yn unigryw i waith ieuenctid, ond rydym yn pryderu ynghylch yr effaith uniongyrchol y bydd hyn yn ei chael ar bobl ifanc. Mae awdurdodau lleol wedi nodi bod gostyngiad yn nifer yr aelodau cofrestredig o ddarpariaeth gwaith ieuenctid o 20 y cant o bobl ifanc yn 2013-14 i 17 y cant yn 2015-16 - tuedd syfrdanol ar i lawr.

**5.** Cafwyd effaith sylweddol ar staffio, gydag awdurdodau lleol yn adrodd y collwyd 148 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar draws y sector statudol yn 2015-16. Mae hyn yn golygu gostyngiad o bron i 20 y cant yn y capasiti staffio mewn dim ond blwyddyn.

**6.** Nid yw'r rhagolwg ar gyfer y sector gwirfoddol yn fwy optimistaidd, gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn adrodd nad yw 30 y cant o'i aelodau yn disgwyl gallu parhau i fodoli y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**7.** Dros y blynyddoedd diwethaf, bu pwyslais cynyddol ar ddarpariaeth wedi'i thargedu at grwpiau penodol o bobl, fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Gall gwaith ieuenctid chwarae rôl bwysig yn cefnogi pobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd neu sydd angen cymorth penodol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod darpariaeth wedi'i thargedu wedi cael ei blaenoriaethu ar draul darpariaeth mynediad agored. Mae angen sicrhau cydbwysedd - ni ddylid ymestyn darpariaeth sydd wedi'i thargedu ar draul darpariaeth mynediad agored.

---

[1] Nid yw hyn yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 03, na wnaeth gasglu data ar gyfer 2013-14 na 2014-15.

**8.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd gostyngiadau mewn darpariaeth a chyllid yn arwain at grwpiau penodol o bobl ifanc, fel pobl ifanc fyddar; pobl ifanc sy'n derbyn gofal; pobl ifanc o gefndir lleiafrifoedd ethnig; pobl ifanc sy'n Sipsiwn, yn Roma ac yn deithwyr; pobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches; a phobl ifanc anabl, yn cael eu heffeithio'n anghymesur. At hynny, rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid mewn perthynas â gwaith ieuenctid a'r iaith Gymraeg. Dylai pobl ifanc sydd am gael mynediad at waith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg allu gwneud hynny - rhaid bod digon o ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**9.** I gloi, mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch y gostyngiad parhaus mewn darpariaeth a chyllid ar gyfer gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol. Mae angen ymyriad brys a radical ar ran y Gweinidog os yw am sicrhau ei uchelgais o gynnig gwaith ieuenctid gwirioneddol ddwyieithog i bob person ifanc.

## Pa rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae?

**10.** Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod aliniad gwell rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol i ddarparu gwaith ieuenctid. Rhaid i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r diffyg gweithio strategol a chydweithio rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol, rhywbeth y cred y Pwyllgor sy'n rhwystr sylweddol i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid cyffredinol.

**11.** Cred y Pwyllgor y bydd cynnal adolygiad o'r strategaeth bresennol ac adnewyddu'r canllawiau statudol presennol yn gam cyntaf pwysig. Credwn hefyd fod angen cynllun gweithredu manwl i sicrhau y caiff y strategaeth ei chyflwyno ar lawr gwlad.

**12.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryder ymhlith rhanddeiliaid gan y sectorau statudol a gwirfoddol ynghylch diffyg arweiniad a chyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru. Dadleuodd y Gweinidog yn erbyn hyn, a chyfeiriodd y Pwyllgor at Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid Cymru ac arian ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn pryderu yr ymddengys fod gan y Gweinidog a'r rhanddeiliaid allweddol safbwyntiau mor wahanol.

**13.** Nodwn fod rhanddeiliaid ar draws y ddau sector yn croesawu nifer o fentrau eraill Llywodraeth Cymru mewn egwyddor, fel y Nod Ansawdd a'r Siarter Gwaith Ieuenctid. Fodd bynnag, eu prif bryder yw bod diffyg cynllun gweithredu clir a chapasiti ac adnoddau annigonol er mwyn eu rhoi ar waith ar sail gynaliadwy.

**14.** Cafodd y Pwyllgor ei synnu gan ymateb y Gweinidog i feirniadaeth gan randdeiliaid statudol a gwirfoddol mewn perthynas ag ymgysylltu â hwy wrth ddatblygu polisïau. Unwaith eto, mae'r ffaith bod y Gweinidog a'r rhanddeiliaid allweddol yn arddel safbwyntiau mor wahanol ynghylch cyfraniad ac ymgysylltiad y sector o ran datblygu polisi gwaith ieuenctid, fel y strategaeth, yn peri pryder i'r Pwyllgor hwn.

**15.** Roedd y Pwyllgor hefyd wedi synnu bod barn y Gweinidog ar gyflwr gwaith ieuenctid a barn Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol mor wahanol. Mae'r cyrff cynrychioliadol hyn yn ddau o'r rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau statudol a gwirfoddol, yn y drefn honno. Rhaid i'r Gweinidog sicrhau ei fod yn defnyddio arbenigedd a dealltwriaeth y ddau sefydliad wrth ddatblygu'r gwaith ieuenctid. Byddant yn amhrisiadwy o ran cyflawni ymrwymiad y Gweinidog i ddarparu mynediad cyffredinol mewn amgylchiadau sy'n gynyddol anodd.

## Pa fath o wasanaeth ieuenctid sydd ei eisiau ar Gymru?

**16.** Cred y Pwyllgor fod angen i'r Gweinidog gymryd cam radical er mwyn cyflawni ei ymrwymiad i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid gwirioneddol ar gyfer yr holl bobl ifanc yng Nghymru. Dim ond os bydd gwasanaethau a sgiliau y sector gwirfoddol yn cael eu defnyddio i'r eithaf i gefnogi ac ategu darpariaeth statudol y caiff y cynnig gwaith ieuenctid ei ddarparu. Gan barhau yn yr un modd, yn wyneb y gostyngiadau mewn cyllid, ni fydd capasiti a darpariaeth yn cyflawni uchelgais y Gweinidog.

**17.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gymhellol o blaid sefydlu model cenedlaethol i ddatblygu a gweithredu polisi gwaith ieuenctid ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Byddai model cenedlaethol yn galluogi prosesau cydweithredol gwell, yn lleihau dyblygu ar draws y sectorau, yn codi statws a phroffil gwaith ieuenctid, ac yn galluogi datblygiad y gweithlu. Yn bwysicaf oll, byddai'n gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael er budd pobl ifanc.

**18.** Roedd amrywiaeth o safbwyntiau gan randdeiliaid ynghylch y manylion am sut y gallai model o'r fath weithio'n ymarferol. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth unfrydol ymhlith rhanddeiliaid ar gyfer ymagwedd newydd a radical.

**19.** Wrth gwrs, o fewn model cenedlaethol, dylai penderfyniadau lleol barhau i ddatblygu darpariaeth drwy ymateb yn uniongyrchol i anghenion lleol. Byddai rôl ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau lleol o hyd.

**20.** Cred y Pwyllgor fod y ddadl yn un ddarbwyllol, yn enwedig gan y byddai cydweithio'n well a llai o ddyblygu, yn anochel, yn arwain at well gwerth am arian yn ystod cyfnod o ostyngiad cyson mewn cyllid. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, gyda chyfraniad rhanddeiliaid a phobl ifanc, archwilio i gostau a buddiannau'r gwahanol fathau o fodel cenedlaethol.

**21.** Cred y Pwyllgor fod angen deall lefelau'r ddarpariaeth ar draws y ddau sector yn well yng Nghymru, drwy fapio darpariaeth ac asesiadau o ddigonolrwydd. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai deall anghenion pobl ifanc, ochr yn ochr â lefel bresennol y ddarpariaeth, fod yn amhrisiadwy o ran datblygu darpariaeth mynediad agored.

**22.** Mewn perthynas â chyllid, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch cynyddu'r pwysau ar y sectorau statudol a gwirfoddol. Mae cyllid byrdymor ar gyfer darpariaeth wedi'i thargedu o sawl ffrwd ariannu hefyd yn cael effaith ar y sector gwirfoddol. Un o fanteision cael model neu fframwaith cenedlaethol fyddai trefniant comisiynu mwy aeddfed rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Byddai hefyd yn sicrhau bod y sector gwirfoddol yn bartner cyfartal.

**23.** Mae'r Pwyllgor yn nodi gwrthwynebiad cryf y Gweinidog i neilltuo'r arian ar gyfer gwaith ieuenctid o fewn y grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod diffyg atebolrwydd ar gyfer y defnydd o arian a ddyrennir mewn enw i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

**24.** Rhaid i'r Gweinidog sicrhau bod mecanweithiau ar waith er mwyn i Lywodraeth Cymru ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif am y defnydd o arian o'r fath ar gyfer gwaith ieuenctid. Fel cam ymlaen, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i archwilio'r potensial o gysylltu fframwaith o ganlyniadau, a gyflwynir yn lleol, i arian drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

**25.** Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed sylwadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn cwestiynu dibynadwyedd ystadegau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio cyllid drwy'r Grant

Cynnal Refeniw. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i drafod y mater hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn nodi cyfraniad cyllid Ewropeaidd i waith ieuenctid yng Nghymru ac yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i archwilio'r posibilrwydd o barhau gydag Erasmus+, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus ynghylch effaith y golled bosibl o ffynonellau eraill o gyllid, fel Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

**27.** Mewn perthynas ag addysg, cred y Pwyllgor y dylai darparwyr gwaith ieuenctid chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'n amlwg y cred rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â'r broses hon ar hyn o bryd. Dylai'r Gweinidog archwilio'r mater hwn ymhellach gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid Gweinidogol a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau eu cyfranogiad.

**28.** O ran y gweithlu, mae'r Pwyllgor yn nodi, o fis Ebrill 2017 bydd yn ofynnol i rai gweithwyr ieuenctid gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Cred y Pwyllgor fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithlu yn cael budd o unrhyw gyfleoedd datblygu a safonau proffesiynol sy'n codi o newid y polisi hwn.

**29.** I gloi, cred y Pwyllgor fod y Gweinidog yn wynebu her sylweddol i gyflawni ei ymrwymiad o sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid dwyieithog, mynediad agored, cyffredinol. Mae ganddo fynediad at weithlu yn y sectorau statudol a gwirfoddol sy'n angerddol ac yn frwdfrydig ynghylch ei helpu i gyflawni ei ymrwymiad. Fodd bynnag, mae angen newid brys a radical, os yw am sicrhau uchelgais y Gweinidog ac anghenion pobl ifanc.

**Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:**

**Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac adnewyddu'r canllawiau statudol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a phobl ifanc. Rhaid i gynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu, gan gynnwys amserlenni, gael ei ddatblygu ochr yn ochr â strategaeth newydd. ....................................................Tudalen 22**

**Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog gynnal trafodaethau brys â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid Gweinidogol i fynd i'r afael â'r pryderon o fewn y sector ynghylch diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru. ..............................Tudalen 22**

**Argymhelliad 3: Dylai fod llwybr clir ac ystyrlon i bobl ifanc fod yn bartneriaid cyfartal wrth ddatblygu gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Dylai hyn gael ei ddatblygu gan y Gweinidog, rhanddeiliaid a phobl ifanc. ...........................Tudalen 22**

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n cwmpasu darpariaeth statudol a gwirfoddol. Dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. ....................................................Tudalen 30**

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar sut y mae'n bwriadu asesu i ba raddau y mae ei ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog mynediad agored, cyffredinol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael ei gyflawni. ..............................................Tudalen 30**

**Argymhelliad 6. O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog gomisiynu ymarfer i fapio darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol ledled Cymru. Dylid adnewyddu'r ymarfer o bryd i'w gilydd. ............................................Tudalen 31**

**Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuenctid yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol fel rhan o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. ......................................................................Tudalen 31**

**Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer defnydd awdurdodau lleol o arian ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r grant cynnal refeniw. Dylai'r fframwaith gynnwys sancsiynau os na chyflawnir y canlyniadau. .......................................................................................................................Tudalen 31**

**Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog archwilio parhad cyllid posibl Erasmus+, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gwneud hynny. ..............Tudalen31**

**Argymhelliad 10.Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm. ..........................................................................................Tudalen 31**

# Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG

## YSTADEGAU AR YR YMCHWILIAD I WAITH IEUENCTID

Ymgynghorodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg â phobl ifanc 11-25 oed fel rhan o'i Ymchwiliad i Waith Ieuenctid. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2016 a chafwyd **1,511** o ymatebion gan bobl ifanc.

**52%** O BOBL IFANC YN DEFNYDDIO GWASANAETH IEUENCTID


**58%** O BOBL IFANC SY'N DEFNYDDIO GWASANAETH IEUENCTID YN MYND UNWAITH YR WYTHNOS

**49%** O BOBL IFANC ANGEN TRAFNIDIAETH I FYND I'W CLWB IEUENCTID

**01%** O BOBL IFANC A GAFODD EU HOLI YN RHOI SGÔR GWAEL I'W GWASANAETH IEUENCTID

**44%** O BOBL IFANC A GAFODD EU HOLI YN RHOI SGÔR RHAGOROL I'W GWASANAETH IEUENCTID

## YMYSG Y CLYBIAU A PHROSIECTAU A ENWYD OEDD



- Geidiaid/sgowtiaid/cadetiaid **9.69%**
- Chwaraeon/celfyddydau perfformio/cerddoriaeth **11.63%**
- Ffermwyr ifanc **42.25%**
- Gofalwyr ifanc **4.65%**
- Fforymau a chynghorau ieuenctid **2.71%**
- Clybiau ieuenctid **15.50%**
- Yr urdd **1.16%**
- Eraill **12.41%**




# 57%

O BOBL IFANC A GAFODD EU HOLI YN DWEUD NAD OEDDENT WEDI GWELD UNRHYW NEWID MEWN ORIAU NEU WEITHGAREDDAU

# 33%

O BOBL IFANC A GAFODD EU HOLI YN DWEUD NAD YDYNT YN DEFNYDDIO GWASANAETH IEUENCTID GAN NAD YDYNT YN GWYBOD AM UNRHYW BROSIECTAU CYFAGOS

## DYMA'R PRIF THEMÂU:



- Materion o ran cyllid a chau adnoddau **26.41%**
- Diffyg gwybodaeth a chyhoeddusrwydd am wasanaethau **4.45%**
- Dim digon o ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn/oedolion ifanc **3.56%**
- Yr agwedd wledig/cymunedol **8.30%**
- Cefnogaeth a chyngor **1.19%**
- Agweddau cadarnhaol **26.41%**
- Pryderon **13.06%**
- Arall **16.62%**

## DYFYNIADAU:

### MATERION O RAN CYLLID A CHAU ADNODDAU

"The club I used to go to has now been closed. It is annoying that the first thing to be cut are provisions for young people"

### DIM DIGON O DDARPARIAETH AR GYFER PLANT HŶN

"Lots of them are more aimed at younger children - there isnt anything for teenagers anymore"

### YR AGWEDD WLEDIG/CYMUNEDOL

"There needs to be more available for young people in rural areas, not just urban areas"

### AGWEDDAU CADARNHAOL

"I feel like they are really good for people with fewer friends as it gives a chance to make friends"

### AGWEDDAU NEGYDDOL

"The concept of Youth Clubs is outdated - young people need a safe space to spend their time with optional activities - NOT forced fun!"

# 01. Cyflwyniad

**30.** Ym mis Gorffennaf 2016, cytunodd y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** i gynnal ymchwiliad "ciplun", gyda'r nod o adolygu effeithiolrwydd strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith ieuenctid.

## Cylch gorchwyl

**31.** Bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb penodol yn archwilio'r canlynol:

- **Mynediad pobl ifanc at wasanaethau gwaith ieuenctid;**
- **Effeithiolrwydd strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru o ran gwaith ieuenctid;**
- **Cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Ewrop, y trydydd sector); ac**
- **Unrhyw faterion eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r ymchwiliad.**

## Ein hymchwiliad

**32.** Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn drwy roi tystiolaeth. Mae rhestr o'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

**33.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i randdeiliaid y sector gwirfoddol a gyfrannodd at yr ymchwiliad drwy ddigwyddiad y Pwyllgor. Mae rhestr o'r sefydliadau a gafodd eu cynrychioli wedi'i chynnwys yn Atodiad B.

**34.** Cynhaliodd y Pwyllgor arolwg hefyd gyda phobl ifanc yn archwilio eu barn ar y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Cafwyd dros 1500 o ymatebion ac mae'r cyfraniad gan bobl ifanc wedi llywio trafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor.

**35.** Mae rhagor o wybodaeth am gefndir polisi gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol wedi'i chynnwys yn Atodiad Ch.

# 02. Sut beth yw gwasanaeth ieuenctid heddiw?

Mae'r bennod hon yn ystyried y sefyllfa bresennol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid ac yn asesu i ba raddau y mae'r cynnig gwaith ieuenctid yn cyrraedd pobl ifanc yng Nghymru.

## Gostyngiadau mewn cyllid a darpariaeth

**36.** Roedd llawer o gyfranwyr i'r ymchwiliad yn cwestiynu a oedd y cysyniad o gael gwasanaeth mynediad agored, cyffredinol yn hyfyw, o ystyried y gostyngiadau sylweddol a chronnus mewn cyllidebau a darpariaeth, a diffyg cynllun gweithredu manwl wedi'i gostio ar gyfer darparu'r cynnig gwaith ieuenctid.

**37.** Yn ôl Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau ieuenctid gan awdurdodau lleol, gan gynnwys y cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw, wedi gostwng bron 25 y cant dros y pedair blynedd diwethaf.[2] Er bod gan y sector gwaith ieuenctid statudol fynediad at ffynonellau eraill o gyllid, dyma'r brif ffynhonnell.

**38.** Dywedodd John Rose, cyn-gyfarwyddwr Asiantaeth Ieuenctid Cymru fod corff sylweddol o dystiolaeth a oedd yn awgrymu mai mynediad cyfyngedig sydd gan bobl ifanc i "wasanaethau ieuenctid" a ddarperir yn lleol, ac mewn nifer o awdurdodau lleol, mae'r mynediad wedi'i gyfyngu'n ddifrifol, ac o bosibl ddim yn bodoli.

**39.** Cred yr Athro Howard Williamson fod effaith y toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol ar wasanaethau ieuenctid wedi bod yn sylweddol ac "[...] mae'r honiadau a wnaed gan rai uwch-swyddogion mewn awdurdodau lleol sef, er gwaethaf gostyngiadau economaidd llym mewn cyllidebau, eu bod wedi llwyddo i gynnal 'gwasanaethau ieuenctid' effeithiol, yn amlwg yn ffug."[3]

**40.** O'r holl ymatebion, dim ond un fynegodd farn fwy cadarnhaol, gydag aelod o staff mewn un awdurdod lleol yn dweud bod "nifer dda o glybiau ieuenctid hygyrch ar gyfer trefi lleol, gan gynnwys trefi llai, ar hyn o bryd". Fodd bynnag, aeth yn ei flaen i fynegi pryder y bydd "clybiau ieuenctid llai yn cau yn yr ardal".

**41.** Roedd tystiolaeth o'r sector gwirfoddol yn awgrymu bod y gostyngiadau mewn cyllid wedi cael effaith sylweddol, gyda chystadleuaeth fwy dwys am adnoddau prin.

## Effaith ar y gweithlu

**42.** Mae gostyngiadau mewn cyllid hefyd wedi cael effaith ar gapasiti'r gweithlu yn y sector statudol. Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2016, roedd 655 aelod o staff rheoli a darparu Gwaith Ieuenctid cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, o gymharu ag 803 ym mis Mawrth 2015, sy'n golygu bod 148 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli mewn blwyddyn yn unig. Mynegodd Unsain bryderon am hyn:

> "Funding for youth services in Wales has reduced by more than £6m across Wales in the 2012-16 period – a significant amount. As a consequence, over 350 youth workers have lost their jobs with a disproportionate number being part-time workers. There has been in excess of 100 youth centre closures in Wales,

---

[2] Nid yw hyn yn cynnwys Ynys Môn, gan na wnaeth gasglu data ar gyfer 2013-14 na 2014-15.
[3] Dr Howard Williamson, Athro Polisi Ieuenctid Ewropeaidd; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 01

which is a considerable number in Wales. UK-wide there has been a closure of over 600 youth centres, so within a UK context this also seems disproportionately high."[4]

## Newid o ddarpariaeth mynediad agored i ddarpariaeth sydd wedi'i thargedu

**43.** Un o'r prif bryderon a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad oedd newid canfyddedig o gyflwyno darpariaeth mynediad agored, cyffredinol i ddarpariaeth sydd wedi'i thargedu at grŵp penodol, fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Awgrymodd y rhanddeiliaid, o ganlyniad i bwysau ariannol, fod awdurdodau lleol yn gynyddol wedi blaenoriaethu'r broses o gyflwyno darpariaeth wedi'i thargedu ar draul darpariaeth gyffredinol.

**44.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth y Pwyllgor:

> "Whereas the argument for providing universal open-access youth services has been made, especially in relation to the longer-term outcomes, they are now being undermined due to the focus on short-term measurable outcomes e.g. numbers into education, employment and training."[5]

**45.** Dywedodd Cyngor Ynys Môn wrth y Pwyllgor:

> "Tra'n cytuno hefo'r egwyddor i roi adnoddau i weithio hefo pobl ifanc sydd mwyaf bregus sydd ddim mewn Gwaith, Addysg na Hyfforddiant, neu'r rhai sy'n debygol o fod felly, mae gwneud hyn ar draul dileu popeth arall oedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gynnig yn un-llygeidiog, ac yn diystyrru dyheadau'r bobl ifanc rheini sy'n gwneud eu gorau ond angen dipyn bach o gymorth i wella eu cyfleoedd cyflogaeth, neu i wella eu sgiliau cymdeithasol, neu angen y gefnogaeth emosiynol oedd eu perthynas gyda gweithiwr ieuenctid yn gynnig iddynt."[6]

## Mynediad at wasanaethau gan grwpiau penodol o bobl ifanc

**46.** Mynegodd y cyfranwyr i'r ymchwiliad bryder bod yr effaith ar lefel y ddarpariaeth yn cael ei deimlo yn anghymesur gan rai grwpiau o bobl ifanc. Cafodd pobl ifanc fyddar; pobl ifanc sy'n derbyn gofal; pobl ifanc o gefndir lleiafrifoedd ethnig; pobl ifanc sy'n Sipsiwn, yn Roma ac yn deithwyr; pobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches; a phobl ifanc anabl i gyd eu disgrifio bellach fel eu bod yn llai tebygol o gael mynediad at ddarpariaeth.

**47.** Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd yr Urdd fod darpariaeth Gymraeg yn anghyson ar draws awdurdodau lleol ac ychwanegodd mai dim ond swm bach o'r Grant Cynnal Refeniw a gaiff ei wario ar ddarpariaeth Gymraeg.[7] Cafodd y Pwyllgor wybod hefyd y canfu arolwg diweddar o bobl ifanc gan y gwasanaeth ieuenctid statudol ym Mro Morgannwg fod 25 y cant o sampl fawr o bobl ifanc yn awyddus i gael gwasanaethau ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg, ond na all y gwasanaeth recriwtio nifer ddigonol o weithwyr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg.

**48.** Dywedodd Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru wrth y Pwyllgor:

---

[4] Unsain Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 29
[5] Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 09
[6] Cyngor Sir Ynys Môn; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 03
[7] Urdd Gobaith Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 28

> "A draft report, commissioned by the Welsh Government and presented to the Youth Work Reference Group earlier this year, pointed out that there are very significant differences in the quality of the contributions made by youth services to the development of the Welsh language. Young people's access to youth work delivered through the Welsh language is patchy and inconsistent. This is regrettable and inefficient, and arises, in part, from a vacuum in the strategic leadership of youth work in Wales."[8]

## Crynodeb o dystiolaeth y Gweinidog

**49.** Pan holwyd y Gweinidog a oedd yn ymrwymedig i gynnig gwaith ieuenctid cyffredinol, dywedodd:

> "We're committed […] to a youth work service that is of high quality, that is open access, available across the face of the country, available bilingually, able to respond to people's needs wherever they live, and a youth work experience that makes a real difference to young people's lives, whether it's through the experiences it opens up for them or the support it offers."[9]

**50.** Mewn perthynas â chanfyddiad bod newid wedi bod o ddarpariaeth gyffredinol i ddarpariaeth wedi'i thargedu, dywedodd y Gweinidog:

> "We recognise that there is specific targeted provision that seeks to look at particular segments of the population. We think that that is a good thing and that it should continue to happen. We're trying to find the right balance between open access and targeted provision. It can be sometimes challenging. It can be challenging for local government and for voluntary organisations. My feeling remains that local authorities are best placed to interpret how these matters are delivered on a local needs basis, and that local authorities should—and, I hope, do—prioritise resources based on the needs of the communities that they represent."[10]

**51.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaith ymchwil wedi'i gomisiynu ar y defnydd o'r Gymraeg:

> "Recommendations from this research included the consideration of Welsh language training within youth worker training packages, youth work organisations to utilise digital media, sharing of good practice and partnership working are currently being considered by my officials."[11]

---

[8] Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 07
[9] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.
[10] ibid
[11] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.

## Safbwynt y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad parhaus y Gweinidog i wasanaeth dwyieithog a mynediad agored cyffredinol ar ffurf 'cynnig gwaith ieuenctid' y gall yr holl bobl ifanc yng Nghymru ei ddefnyddio. Fodd bynnag, o ystyried y sefyllfa bresennol, nid yw'n glir pa mor hyfyw neu gynaliadwy yw'r ymrwymiad hwn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwyslais cynyddol wedi bod ar ddarpariaeth wedi'i thargedu at grwpiau penodol o bobl, fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). I raddau, gellir ystyried hyn yn gydnabyddiaeth o effaith bosibl gwaith ieuenctid yn cyrraedd pobl ifanc y mae gwasanaethau eraill yn cael anhawster i'w cyrraedd.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall gwaith ieuenctid chwarae rôl bwysig yn cefnogi pobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd neu sydd angen cymorth penodol. Fodd bynnag, mae pryder bod darpariaeth wedi'i thargedu wedi cael ei blaenoriaethu ar draul darpariaeth mynediad agored. Mae angen taro cydbwysedd - ni ddylai blaenoriaethu darpariaeth wedi'i thargedu arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gallu cael mynediad at ddarpariaeth. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r cydbwysedd cywir yn cael ei daro ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y rhanddeiliaid y bydd gostyngiadau mewn darpariaeth a chyllid yn arwain at grwpiau penodol o bobl ifanc, fel pobl ifanc fyddar; pobl ifanc sy'n derbyn gofal; pobl ifanc o gefndir lleiafrifoedd ethnig; pobl ifanc sy'n Sipsiwn, yn Roma ac yn deithwyr; pobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches; a phobl ifanc anabl, yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

At hynny, rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid mewn perthynas â gwaith ieuenctid a'r iaith Gymraeg. Dylai pobl ifanc sydd am gael mynediad at waith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg allu gwneud hynny - rhaid bod digon o ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion.

I gloi, mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch y gostyngiad parhaus yn y ddarpariaeth a chyllid ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae angen ymyriad brys a radical ar ran y Gweinidog os yw am sicrhau ei weledigaeth uchelgeisiol o ddarpariaeth ddwyieithog sy'n wirioneddol agored. Rhaid iddo hefyd fynd i'r afael â'r diffyg gweithio strategol a chydweithio rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol, rhywbeth y cred y Pwyllgor sy'n rhwystr sylweddol i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid cyffredinol.

# 03. Pa rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae?

Mae'r bennod hon yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru hyd yma ac effeithiolrwydd ei strategaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awgrymu sut y dylai ymagwedd Llywodraeth Cymru newid yn y dyfodol.

## Diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol

**52.** Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr, er gwaethaf bodolaeth Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol ac amrywiaeth o fentrau sy'n berthnasol i waith ieuenctid, mae diffyg arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol a gweledigaeth wedi bod gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru:

> "A clear vision for the youth service in Wales is required [...]. The Welsh Government need to bring all strands of policy together – it currently feels fragmented and unclear on the direction of travel with different organisations/bodies being responsible for different aspects of service."[12]

**53.** Cyfeiriodd YMCA at "ddiffyg cydlyniad yn lleol ac yn genedlaethol o weledigaeth tymor hwy ar gyfer darparu gwasanaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru",[13] tra bod yr Athro Howard Williamson yn credu bod "arweinyddiaeth, blaenoriaethu a chyfarwyddyd o'r canol yn wael iawn".[14]

**54.** Cred Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam "mai Llywodraeth Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i helpu i feithrin consensws rhwng Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector, oherwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r gydberthynas hon wedi gwanhau".[15] Mewn perthynas â'r mater hwn, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25:

> "[...] there is a need for greater and more robust strategic co-ordination in relation to youth work in Wales, in relation to specific youth work policy and strategy [...]"[16]

## Yr angen i adolygu Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru

**55.** Croesawodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuenctid 2014-18 mewn egwyddor. Fodd bynnag, cred nifer, gan gynnwys Estyn,[17] fod angen iddi gael ei hadolygu, o ystyried y newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn y dirwedd a'r cyd-destun y mae gwasanaethau ieuenctid bellach yn cael eu darparu. Dywedodd YMCA Caerdydd:

> "[...] since this strategy was written, our economic and social climate has changed significantly, and local authorities have been forced to make decisions that do not naturally align with this current strategy. It is therefore out of kilter with the reality of what is occurring on the ground across Wales."[18]

---

[12] Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 06
[13] YMCA Caerdydd; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 10
[14] Dr Howard Williamson, Athro Polisi Ieuenctid Ewropeaidd; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 01
[15] Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 09
[16] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25
[17] Estyn; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 12
[18] YMCA Caerdydd; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 10

**56.** Mynegodd llawer o randdeiliaid bryderon nad oedd yn realistig credu y gellir gweithredu'r strategaeth, o ystyried y sefyllfa bresennol. Dywedodd Addysg a Safonau Hyfforddiant Cymru fod "absenoldeb cynllun gweithredu wedi'i dargedu a'i gostio i gyflwyno'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol".[19]

## Galwadau am ddyletswydd statudol newydd a diweddaru'r canllawiau presennol

**57.** Cred nifer o gyfranwyr y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dywedodd Youth Cymru:

> "There is broad agreement that legislation is needed to clearly establish young people's legal right to receive youth work services, and who is responsible for ensuring those services are provided."[20]

**58.** Cyfeiriodd cyfranwyr eraill at y canllawiau Ymestyn Hawliau sy'n bodoli eisoes, sydd â'r bwriad o fod yn sail i ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac a gyhoeddwyd yn 2002. Cred rhanddeiliaid yn gryf, o ystyried y newidiadau yn y sector dros y 14 mlynedd diwethaf, ei bod yn hen bryd adnewyddu'r canllawiau. Dywedodd y Comisiynydd Plant nad yw'r canllawiau'n:

> "[…] incorporate or reflect the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014, or the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015, nor does it fit with the aims of the new curriculum development."[21]

## Pryderon ynghylch y "cynnig gwaith ieuenctid", y Siarter Gwaith Ieuenctid a'r "Nod Ansawdd".

**59.** Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn gefnogol o fentrau Llywodraeth Cymru mewn egwyddor. Fodd bynnag, roedd pryder pwysig nad yw'n realistig disgwyl iddynt gael eu darparu.

**60.** Dywedodd y rhanddeiliaid nad oedd digon o arian i ddarparu'r 'cynnig gwaith ieuenctid'. Dywedodd yr Athro Howard Williamson:

> "The aspirations of Welsh Government, for all young people to be able access a 'youth offer', provided either by local authorities or voluntary sector youth work activity, fall dreadfully short in the context of public sector cuts and intensified competition within the voluntary sector for available funds. […] it is empty rhetoric completely disconnected from reality."

**61.** Croesawyd y Siarter Gwaith Ieuenctid gan Youth Cymru[22] a'r Urdd,[23] ond unwaith eto roeddent yn credu bod diffyg eglurder mewn perthynas â sut y caiff ei darparu. Aeth y Comisiynydd Plant ymhellach a disgrifiodd y Siarter fel rhywbeth "nad yw'n darparu fframwaith digon effeithiol a all sicrhau cynnig gwaith ieuenctid cyson ym mhob rhan o Gymru."[24]

---

[19] Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 07
[20] Youth Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 26
[21] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25
[22] Youth Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 26
[23] Urdd Gobaith Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 28
[24] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25

**62.** Yn yr un modd, roedd llawer o randdeiliaid yn croesawu'r Nod Ansawdd, ond yn cwestiynu ei gynaliadwyedd, o ystyried y gostyngiadau parhaus mewn cyllid.

## Effeithiolrwydd a statws y "Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid" Gweinidogol

**63.** Roedd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn aneglur ynghylch rôl barhaus y Grŵp Cyfeirio,[25] tra bod Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid yn dweud bod y Grŵp Cyfeirio yn "aneffeithiol gan nad yw wedi cynhyrchu unrhyw ganlyniadau pendant".[26]

## Diffyg ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid

**64.** Cred nifer o ymatebwyr fod diffyg ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol allweddol. Roedd y Comisiynydd Plant yn galw am "fwy o gyfranogiad gan y gweithlu wrth ddatblygu polisi".[27] Disgrifiodd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid y diffyg hwn o ran ymrwymiad fel cyfle wedi'i golli ac awgrymodd fod datblygu strategaethau a pholisïau heb fewnbwn ystyrlon gan y sector yn golygu bod eu heffaith yn debygol o gael ei lleihau. Aeth yn ei flaen i ddweud:

> "There has been far less involvement of the sector and, at times, work and/or documents have been published in circumstances where the sector has not been informed beforehand e.g. the announcement of the development of the National Outcomes Framework by the National Youth Agency, at the National Youth Work Excellence Awards in 2015 and the recent Youth Work Charter, launched at the WG Youth Work Conference in March. Likewise, the current strategy was developed without involvement of the sector."[28]

## Pryderon ynghylch gostyngiad yng nghapasiti cangen gwaith ieuenctid Llywodraeth Cymru

**65.** Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch gostyngiad canfyddedig yng nghapasiti cangen gwaith ieuenctid Llywodraeth Cymru. Dywedodd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid fod nifer uchel o ran trosiant staff y gwasanaeth sifil wedi arwain at angen parhaus i ailystyried ystyr a diben gwaith ieuenctid ar lefel strategol.

**66.** Cafwyd awgrym pellach gan randdeiliaid nad oes digon o weithio ar draws adrannau yn Llywodraeth Cymru, gan arwain at ddiffyg dull cydlynol neu gydgysylltiedig.

## Proses gaffael Llywodraeth Cymru

**67.** Mynegodd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid[29], Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol[30], ac Youth Cymru[31] oll rwystredigaeth bod ymgynghorwyr o'r tu allan i Gymru wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â chontractau mawr sy'n berthnasol i'r polisi gwaith ieuenctid. Awgrymwyd fod diffyg dealltwriaeth o'r dirwedd gwaith ieuenctid yng Nghymru yn aml yn

---

[25] Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 08
[26] Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 17
[27] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25
[28] Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 17
[29] Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 17
[30] Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 08
[31] Youth Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 26

golygu bod ymgynghorwyr yn hollol ddibynnol ar y sector i gael gwybodaeth a gwaith dadansoddi, gan ddefnyddio adnoddau prin. Nid oedd y dull hwn yn ychwanegu llawer o werth.

## Crynodeb o dystiolaeth y Gweinidog

**68.** Disgrifiodd y Gweinidog sut y mae'n ystyried rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaeth gwaith ieuenctid:

> "Where you have local provision, the role of Welsh Government is to provide leadership, to provide support and encouragement to enable the exchange of best practice, with excellent case studies of different examples of different ways of working, and as an enabler. […] I think it's important that Government here understands what its role, a positive role, can be, but as a part of that also understands where it is important to step back as well, and to allow local decision making to take place."[32]

**69.** Dadleuodd y Gweinidog yn erbyn yr honiad fod diffyg arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru a dywedodd fod y sector wedi bod yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol:

> "[…] we as a Government have a strategy in place that was established as a result of a significant period and process of engagement and consultation and debate and discussion, so it wasn't a strategy that was imposed on the sector—it came from the sector, and that, of course, has been established with £2.7 million of additional funding in order to enable that to happen."[33]

**70.** Ymrwymodd y Gweinidog i gynnal adolygiad o'r strategaeth a'r canllawiau statudol cysylltiedig. Mewn gohebiaeth, dywedodd y Gweinidog fel a ganlyn

> "The National Youth Work Strategy is currently being reviewed; findings will be published in Spring 2017. Working closely with stakeholders this will form the basis for development of a new youth work strategy to run from 2018. This piece of work will feed in to our work around refreshing the statutory guidance."[34]

**71.** Wrth gyfeirio at ddiben y nod ansawdd, dywedodd y Gweinidog:

> "We will ensure that the quality mark, which was developed with the sector—it's not something that we're imposing—will allow different organisations to self-assess themselves […] The role of the wider voluntary structure and voluntary sector is important in pushing up standards and increasing standards and quality as well. So, you do have the structures that we're establishing from Government, but also the structures that exist within the

[32] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.
[33] ibid
[34] ibid

> voluntary sector as well, which, I hope, together, will capture many of the organisations that you are describing."[35]

**72.** Wrth ymateb i feirniadaeth am ddiffyg ymgysylltiad â'r sector, dywedodd y Gweinidog:

> "Can I say that none of those organisations have contacted me since I've been appointed to make those criticisms or to make those points? So, if they are making those points to the committee, then, clearly, they're doing so without reference to the Welsh Government, and without making those points to the Welsh Government. And perhaps, if they are concerned about the actions of the Welsh Government, they should contact the Minister in the Welsh Government, and, clearly, they have not done so."[36]

**73.** Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oes unrhyw dystiolaeth o ostyngiad yn nifer y staff yn yr adran o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am waith ieuenctid.

## Safbwynt y Pwyllgor

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod aliniad gwell rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol i ddarparu gwaith ieuenctid. Rhaid i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r diffyg gweithio strategol a chydweithio rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol, rhywbeth y cred y Pwyllgor sy'n rhwystr sylweddol i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid cyffredinol.

Cred y Pwyllgor y bydd cynnal adolygiad o'r strategaeth bresennol ac adnewyddu'r canllawiau statudol presennol yn gam cyntaf pwysig. Credwn hefyd fod angen cynllun gweithredu manwl i sicrhau y caiff y strategaeth ei chyflwyno ar lawr gwlad.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryder ymhlith rhanddeiliaid gan y sectorau statudol a gwirfoddol ynghylch diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru. Dadleuodd y Gweinidog yn erbyn hyn, a chyfeiriodd y Pwyllgor at Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid Cymru ac arian ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn pryderu yr ymddengys fod gan y Gweinidog a'r rhanddeiliaid allweddol safbwyntiau mor wahanol.

Nodwn fod rhanddeiliaid ar draws y ddau sector yn croesawu nifer o fentrau eraill Llywodraeth Cymru mewn egwyddor, fel y Nod Ansawdd a'r Siarter Gwaith Ieuenctid. Fodd bynnag, eu prif bryder yw bod diffyg cynllun gweithredu clir a chapasiti ac adnoddau annigonol er mwyn eu rhoi ar waith ar sail gynaliadwy.

Cafodd y Pwyllgor ei synnu gan ymateb y Gweinidog i feirniadaeth gan randdeiliaid statudol a gwirfoddol mewn perthynas ag ymgysylltu â hwy wrth ddatblygu polisïau.

Unwaith eto, mae'r ffaith bod y Gweinidog a'r rhanddeiliaid allweddol yn arddel safbwyntiau mor wahanol ynghylch cyfraniad ac ymgysylltiad y sector o ran datblygu polisi gwaith ieuenctid, fel y strategaeth, yn peri pryder i'r Pwyllgor hwn.

---

[35] ibid
[36] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi synnu bod barn y Gweinidog ar gyflwr gwaith ieuenctid a barn Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol mor wahanol. Mae'r cyrff cynrychioliadol hyn yn ddau o'r rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau statudol a gwirfoddol, yn y drefn honno. Rhaid i'r Gweinidog sicrhau ei fod yn defnyddio arbenigedd a dealltwriaeth y ddau sefydliad wrth ddatblygu'r gwaith ieuenctid. Byddant yn amhrisiadwy o ran cyflawni ymrwymiad y Gweinidog i ddarparu mynediad cyffredinol mewn amgylchiadau sy'n gynyddol anodd.

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Gweinidog adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac adnewyddu'r canllawiau statudol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a phobl ifanc. Rhaid i gynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu, gan gynnwys amserlenni, gael ei ddatblygu ochr yn ochr â strategaeth newydd.

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Gweinidog gynnal trafodaethau brys â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid Gweinidogol i fynd i'r afael â'r pryderon o fewn y sector ynghylch diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3:** Dylai fod llwybr clir ac ystyrlon i bobl ifanc fod yn bartneriaid cyfartal wrth ddatblygu gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Dylai hyn gael ei ddatblygu gan y Gweinidog, rhanddeiliaid a phobl ifanc.

# 04. Pa fath o wasanaeth ieuenctid sydd ei eisiau ar Gymru?

Mae'r bennod hon yn ystyried sut y gellir sicrhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru o wasanaeth dwyieithog mynediad agored, cyffredinol yn sgil y newidiadau sylweddol i'r tirwedd gwaith ieuenctid yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r canfyddiad o ddiffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad gan Lywodraeth Cymru ar draws y sector.

## Galwadau i sefydlu corff cenedlaethol newydd

**74.** Roedd llawer o'r ymatebwyr yn galw'n benodol am sefydlu fframwaith neu gorff cenedlaethol newydd i ysgogi ffordd newydd o weithio sy'n seiliedig ar gydgysylltu'r sectorau gwirfoddol a statudol. Yn ei ymateb, nododd yr Urdd yr angen i Lywodraeth Cymru sefydlu corff o'r fath fel ei brif flaenoriaeth.[37] Cred y gallai gynnig arweinyddiaeth strategol i'r sector a byddai ganddo hefyd yr awdurdod i ddyfeisio datrysiadau creadigol a gaiff eu gwreiddio yng Nghymru.

**75.** Adleisiodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru y farn hon, gan ddweud bod angen mwy o gydweithredu rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol.[38] Byddai cael Cyngor Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn un o'r cryfderau o sicrhau y cyflawnir hyn; i ddod â gwasanaethau at ei gilydd; gan gydweithio i sicrhau un weledigaeth ac un nod. Awgrymodd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol y byddai model o'r fath yn sicrhau bod y ddau sector yn fwy effeithlon ac yn fwy cost-effeithiol. Dywed y gallai'r corff gael ei ariannu drwy adennill a neilltuo arian y Grant Cynnal Refeniw.[39]

## Cyllid

**76.** Fel y disgrifiwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon difrifol ynghylch a yw gwasanaeth mynediad agored yn hyfyw, o ystyried y gostyngiadau mewn cyllid. Dywedodd Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru:

> "[…] the reduction in funding has posed a serious strain on the delivery of youth services in their originally intended manner of being universal/offering open access provision."[40]

**77.** Un mater y soniwyd amdano gan bron bob un o'r ymatebwyr oedd yr amrywiad canfyddedig yn swm y Grant Cynnal Refeniw a wariwyd gan awdurdodau lleol o gymharu â'r dyraniad tybiannol (yr Asesiad ar sail Dangosydd) ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dywedodd Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru:

> "[…] we are unable to understand the wide variety in Local Authority spending on youth services when compared to the notional figure for youth services set out in each LA's RSG allocation."[41]

---

[37] Urdd Gobaith Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 28
[38] Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 06
[39] Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 08
[40] Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 17
[41] Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 07

**78.** Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater hwn, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor na ellir cymharu'r wybodaeth ar gyfer gwariant pob awdurdod lleol, fel y'i ceir yn natganiad ystadegol Llywodraeth Cymru, gan fod pob awdurdod wedi'i strwythuro mor wahanol.

**79.** Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu a ddylid neilltuo'r cyllid. Cred y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol hynny ac y dylai awdurdodau lleol fod yn fwy atebol am y symiau y maent yn ei wario ar wasanaethau ieuenctid.[42] Gwnaeth ymatebwyr eraill sylw ar y defnydd a wneir gan awdurdodau lleol o arian o raglenni eraill, fel Teuluoedd yn Gyntaf neu Cymunedau yn Gyntaf i ychwanegu at eu dyraniadau i wasanaethau ieuenctid er mwyn cyrraedd y swm tybiannol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Cyngor Ynys Môn:

> "[…] mae rhai siroedd yn defnyddio grantiau fel Teuluoedd yn Gyntaf, neu Cymunedau'n Gyntaf i gyflogi Gweithwyr Ieuenctid neu Weithwyr Ieuenctid Ysgol, tra bod eraill yn dehongli telerau'r grant fel nad yw'n bosib gwneud hyn, felly mae hyn eto yn golygu bod y ddarpariaeth yn amrywio'n fawr o sir i sir." [43]

### Cyllid y sector gwirfoddol

**80.** Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y gostyngiad yn y blynyddoedd diwethaf yn y cyllid sydd ar gael i'r sector gwirfoddol. Mae hyn wedi arwain nid yn unig at ostyngiad yn lefel y ddarpariaeth, ond sefyllfa lle mae sefydliadau'n treulio mwyfwy o amser yn mynd ar drywydd ffrydiau ariannu prin er mwyn parhau i fodoli. Dywedodd yr Athro Howard Williamson:

> "More time than ever before is spent trying the secure and sustain organisational and project funding than on youth work delivery. All this, together, puts the funding of youth work in a very precarious position."[44]

### Cyllid Ewropeaidd

**81.** Mynegwyd pryderon difrifol ynghylch yr effaith ar y sector o gael gwared, o bosibl, ar arian Ewropeaidd, gan amlygu'r cyllid a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau ieuenctid mewn rhaglenni fel Erasmus+ a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

## Gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion pobl ifanc

**82.** Ymhellach i'r pryderon ynghylch y diffyg ymgysylltu â rhanddeiliaid, a amlinellir mewn penodau blaenorol, mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon y caiff polisi a gwasanaethau ieuenctid eu datblygu gydag ychydig neu ddim cyfranogiad gan bobl ifanc. Roedd y Comisiynydd Plant yn galw am "fwy o gyfranogiad gan bobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau."[45]

**83.** Pwysleisiodd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid y pwysigrwydd o gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau:

> "It is essential therefore that young people are fully involved in shaping services going forward. Whilst their engagement in national discussions and

[42] Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 06
[43] Cyngor Sir Ynys Môn; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 03
[44] Dr Howard Williamson, Athro Polisi Ieuenctid Ewropeaidd; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 01
[45] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25

policy development so far has been very limited, the PYOG makes a plea for young people to be offered a view and be fully involved at every step."[46]

## Mapio gwasanaethau ac asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuenctid

**84.** Cred Comisiynydd Plant Cymru fod "angen cyflwyno asesiadau o Ddigonolrwydd Gwaith Ieuenctid fel rhan o asesiad o anghenion y boblogaeth",[47] sy'n farn a rennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam[48]. Dywedodd Youth Cymru:

> "[…] consideration could be given to developing the methodology used to establish 'sufficiency' with regard to play provision, placing a duty on each local authority to assess the need for youth work provision and to plan for it and ensure it is delivered."[49]

## Polisïau addysg a gwaith ieuenctid

**85.** Cred nifer o gyfranwyr i'r ymchwiliad y gall gwaith ieuenctid chwarae rhan bwysig mewn perthynas â pholisi addysg. Cred rhanddeiliaid y dylai'r sector fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn dilyn adolygiad Donaldson. Dywedodd Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru fod y ddadl ar sut i weithredu'r diwygiadau "yn ymddangos i fod yn digwydd heb unrhyw fewnbwn gwaith ieuenctid".[50] Dywedodd y Comisiynydd Plant:

> "It has been disappointing to see a lack of engagement with wider youth services within the Curriculum Reform work undertaken to date, who I believe have a significant role to play in realised Wales's Curriculum for Life ambitions."[51]

## Codi proffil gwaith ieuenctid

**86.** Roedd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid,[52] yn galw am roi proffil uwch i waith ieuenctid o fewn Llywodraeth Cymru. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y teimla llawer yn y sector yng Nghymru fod proffil gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi colli tir yn ystod y blynyddoedd diwethaf o gymharu â sectorau eraill fel addysgu mewn ysgolion a gofal Cymdeithasol.[53]

## Gweithlu

**87.** Cafodd nifer sylweddol o swyddi eu colli o fewn y sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon y gallai anwadalrwydd o'r fath anghymell pobl rhag mynd ar drywydd gwaith ieuenctid fel gyrfa.

---

[46] Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 17
[47] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25
[48] Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 09
[49] Youth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 26
[50] Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 07
[51] Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 25
[52] Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 17
[53] Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 11

**88.** Pwysleisiodd cyfranwyr eraill y pwysigrwydd o ddatblygu gweithlu. Dywed Clybiau Bechgyn a Merched Cymru y dylai gwirfoddolwyr gael cynnig hyfforddiant sylfaenol fel eu bod yn deall egwyddorion gwaith ieuenctid yn llawn.[54]

**89.** O fis Ebrill 2017, bydd yn ofynnol i rai gweithwyr ieuenctid gael eu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Dywedodd Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru ei bod yn bwysig bod gweithwyr ieuenctid yn cael budd o'r broses gofrestru.[55] Fodd bynnag, mynegodd Unsain bryderon na fydd gweithwyr ieuenctid yn cael yr un gwerth o gofrestru ag y mae athrawon yn ei gael ar hyn o bryd.[56]

**90.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg:

> "[...] ar ôl gwneud penderfyniad i ymestyn cofrestru i grwpiau eraill yn y gweithlu y tu hwnt i athrawon ysgol a'i gwneud yn ofynnol iddynt dal ffi cofrestru blynyddol CGA, mae angen i'r llywodraeth ymdrin â phob grŵp o gofrestreion yn gyfartal wrth iddi gynllunio gweithlu'r dyfodol a datblygu polisïau. Yn hanesyddol, mae athrawon ysgolion wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol, ar safonau proffesiynol ac ar drefniadau eraill nad oedd ar gael i weithwyr ieuenctid, athrawon AB, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith neu staff cymorth."[57]

## Rheoli gwybodaeth cyson

**91.** Codwyd y mater ynghylch diffyg casglu gwybodaeth reoli gyson hefyd. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor y byddai casglu data yn galluogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a rheolwyr gwaith ieuenctid i asesu addasrwydd darpariaeth gwaith ieuenctid i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ac a flaenoriaethwyd gan bobl Ifanc.[58]

## Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

**92.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gyflwyno Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid gyda'r nod o 'geisio eglurder ynghylch y canlyniadau.' Dywedodd Youth Cymru fod ganddo bryderon am y fframwaith:

> "The process around the development of a proposed National Outcomes Framework has been flawed, and it seems now that what will emerge is a tool to measure activity, rather than to measure the difference that activity makes. It is not clear whether this will supersede, add to, or be separate from the current data gathering process in which local authorities must participate."[59]

[54] Clybiau Bechgyn a Merched Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 27
[55] Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 07
[56] Unsain Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 29
[57] Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA); Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 11
[58] Estyn; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 12
[59] Youth Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig, YW 26

# Crynodeb o dystiolaeth y Gweinidog

**93.** Gan gyfeirio at sylwadau'r rhanddeiliaid o blaid model neu fframwaith cenedlaethol, dywedodd y Gweinidog:

> "It certainly isn't my intention, and it wouldn't be my wish, and I don't think it would be the wish of the committee either, to nationalise that service and to seek to deliver it from here. So, there will be differences. One of the themes I've picked up from your evidence is the significant difference in provision across the country. To some extent, we need to decide where we want the balance. There's always that tension, if you like, between a national vision and local delivery."[60]

**94.** Aeth y Gweinidog yn ei flaen i ddweud y byddai'n penderfynu ar fodel ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid yn y dyfodol yn gynnar yn 2017.

**95.** Nododd y Gweinidog ei safbwynt ar gyllid:

> "Overwhelmingly, my view remains that this is a matter for local government to take these decisions and not a matter for a Minister to intervene in. Local youth services are funded via a number of different sources, mainly the RSG—I think that probably represents about 70 per of the total available. But then you've got other funding sources from Welsh Government programmes, from the European structural fund and other sources within, perhaps, local government or elsewhere. So, you've got a number of different sources of funding. Taken together, the current estimate for the final financial year for which we have numbers was that £36.6 million was being spent on youth services across Wales, which is considerably more than the notional figure that you'd see from the RSG that is published."[61]

**96.** Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n trafod y materion ynghylch cymaroldeb data awdurdodau lleol ar wariant gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**97.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y posibilrwydd o bennu canlyniadau ar gyfer awdurdodau lleol fel amod y cyllid:

> "Setting outcomes by local authority area—I'm happy to consider that. Of course, the national strategy has some outcomes that probably aren't defined in the way that you describe, and certainly aren't defined on a local authority basis, in terms of the way forward, but perhaps that is something we can discuss when we come back to discuss the strategy guidance. I'm more attracted by the concept of outcomes than I am by hypothecation […] If we are going to look at a national outcomes framework, then perhaps how we break that down into local areas could be something we could look at."[62]

---

[60] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.
[61] Ibid
[62] ibid

**98.** Cyfeiriodd y Gweinidog at bwysigrwydd Cyllid Ewropeaidd i'r sector a dywedodd y byddai'n ystyried y posibilrwydd o Lywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y rhaglen Erasmus+:

> "Clearly, it's the UK as a member state in this case, and a UK agency, that continues to manage and deliver the programme across the United Kingdom, but you're absolutely right in your analysis: you don't need to be a member of the European Union in order to access these services and I would certainly want to do that."[63]

**99.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu adborth neu syniadau ar sut i wella ymgysylltiad â phobl ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau:

> "[…] if the committee has any views on how that can be improved or how we can strengthen that engagement, then I'd very much welcome that. I would particularly welcome any views the committee might have on how we can strengthen the voice of young people and children who may be, at the moment, marginalised, lacking in confidence, from disadvantaged backgrounds, or excluded from services and providers in other ways."[64]

**100.** Cyfeiriodd y Gweinidog at ddeall lefelau a lleoliad y ddarpariaeth a dywedodd fod ymarfer mapio wrthi'n cael ei gynnal:

> "Public provision, statutory provision from local authorities is already a matter of public record and is available both to this committee and to anyone else. And that stands. So, we understand what is delivered and what is available through statutory services. What isn't so well understood is that delivered through the voluntary sector, through voluntary groups, and it is that element of that that we are currently mapping. It's that element that we will be reporting on in the next few weeks."[65]

**101.** Yn dilyn hynny, cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog yn cadarnhau bod yr ymarfer mapio yn ymwneud â darpariaeth i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn unig.

**102.** Mewn perthynas â chofrestru'r gweithlu, dywedodd y Gweinidog:

> "I hope that the Education Workforce Council registration process will both strengthen the sector and provide an underpinning, if you like, of the skills available to the sector, and also then increase the status of the sector and of youth workers. I hope that it will then provide the opportunity for a progression, if you like, and a more profound engagement in how we develop youth work and youth workers in the future."[66]

**103.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n ystyried ymestyn cylch gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu safonau proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru. Mewn ymateb i

---

[63] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.
[64] ibid
[65] ibid
[66] ibid

gwestiwn, dywedodd y Gweinidog y byddai hefyd yn fodlon ar awdurdodau lleol yn ystyried cynnig cyfleoedd hyfforddi i'r sector gwirfoddol.

**104.** Mewn perthynas â chynnwys y sector yn y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, dywedodd y Gweinidog:

> "My understanding is that it's fully involved in that work. [...] we're moving into a process, through Donaldson, of having education provided in a more comprehensive and holistic way, and I hope that the youth service and youth work will help deliver that. Certainly, my understanding is that that is already happening."[67]

## Safbwynt y Pwyllgor

Cred y Pwyllgor fod angen i'r Gweinidog gymryd cam radical er mwyn cyflawni ei ymrwymiad i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid gwirioneddol ar gyfer yr holl bobl ifanc yng Nghymru. Dim ond os bydd gwasanaethau a sgiliau y sector gwirfoddol yn cael eu defnyddio i'r eithaf i gefnogi ac ategu darpariaeth statudol y caiff y cynnig gwaith ieuenctid ei ddarparu. Os parhaeir yn yr un modd, yn wyneb y gostyngiadau mewn cyllid, capasiti a darpariaeth, ni ellir cyflawni uchelgais y Gweinidog.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gymhellol o blaid sefydlu model cenedlaethol i ddatblygu a gweithredu polisi gwaith ieuenctid ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Byddai model cenedlaethol yn galluogi prosesau cydweithredol gwell, yn lleihau dyblygu ar draws y sectorau, yn codi statws a phroffil gwaith ieuenctid, ac yn galluogi datblygiad y gweithlu. Yn bwysicaf oll, byddai'n gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael er budd pobl ifanc.

Roedd amrywiaeth o safbwyntiau gan randdeiliaid ynghylch y manylion am sut y gallai model o'r fath weithio'n ymarferol. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth unfrydol ymhlith rhanddeiliaid ar gyfer ymagwedd newydd a radical.

Wrth gwrs, o fewn model cenedlaethol, dylai penderfyniadau lleol barhau i ddatblygu darpariaeth drwy ymateb yn uniongyrchol i anghenion lleol. Byddai rôl ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau lleol o hyd.

Cred y Pwyllgor fod y ddadl yn un ddarbwyllol, yn enwedig gan y byddai cydweithio'n well a llai o ddyblygu, yn anochel, yn arwain at well gwerth am arian yn ystod cyfnod o ostyngiadau parhaus mewn cyllid. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, gyda chyfraniad rhanddeiliaid a phobl ifanc, archwilio i gostau a buddiannau'r gwahanol fathau o fodel cenedlaethol.

Cred y Pwyllgor fod angen deall lefelau'r ddarpariaeth ar draws y ddau sector yn well yng Nghymru, drwy fapio darpariaeth ac asesiadau o ddigonolrwydd. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai deall anghenion pobl ifanc, ochr yn ochr â lefel bresennol y ddarpariaeth, fod yn amhrisiadwy o ran datblygu darpariaeth mynediad agored.

Mewn perthynas â chyllid, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch cynyddu'r pwysau ar y sectorau statudol a gwirfoddol. Mae cyllid byrdymor ar gyfer darpariaeth wedi'i thargedu o sawl ffrwd ariannu

[67] Tystiolaeth lafar, 12 Hydref 2016.

hefyd yn cael effaith ar y sector gwirfoddol. Un o fanteision cael model neu fframwaith cenedlaethol fyddai trefniant comisiynu mwy aeddfed rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Byddai hefyd yn sicrhau bod y sector gwirfoddol yn bartner cyfartal.

Mae'r Pwyllgor yn nodi gwrthwynebiad cryf y Gweinidog i neilltuo'r arian ar gyfer gwaith ieuenctid o fewn y grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod diffyg atebolrwydd ar gyfer y defnydd o arian a ddyrennir mewn enw i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Rhaid i'r Gweinidog sicrhau bod mecanweithiau ar waith er mwyn i Lywodraeth Cymru ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif am y defnydd o arian o'r fath ar gyfer gwaith ieuenctid. Fel cam ymlaen, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i archwilio'r potensial o gysylltu fframwaith o ganlyniadau, a gyflwynir yn lleol, i gyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed sylwadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn cwestiynu dibynadwyedd ystadegau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio arian drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i drafod y mater hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn nodi cyfraniad cyllid Ewropeaidd i waith ieuenctid yng Nghymru ac yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i archwilio'r posibilrwydd o barhau gydag Erasmus+, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus ynghylch effaith y golled bosibl o ffynonellau eraill o gyllid, fel y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Mewn perthynas ag addysg, cred y Pwyllgor y dylai darparwyr gwaith ieuenctid chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'n amlwg y cred rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â'r broses hon ar hyn o bryd. Dylai'r Gweinidog archwilio'r mater hwn ymhellach gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid Gweinidogol a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau eu cyfranogiad.

O ran y gweithlu, mae'r Pwyllgor yn nodi, o fis Ebrill 2017 bydd yn ofynnol i rai gweithwyr ieuenctid gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Cred y Pwyllgor fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithlu yn cael budd o unrhyw gyfleoedd datblygu a safonau proffesiynol sy'n codi o newid y polisi hwn.

I gloi, cred y Pwyllgor fod y Gweinidog yn wynebu her sylweddol i gyflawni ei ymrwymiad o sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid dwyieithog, mynediad agored, cyffredinol. Mae ganddo fynediad at weithlu yn y sectorau statudol a gwirfoddol sy'n angerddol ac yn frwdfrydig ynghylch ei helpu i gyflawni ei ymrwymiad. Fodd bynnag, mae angen newid brys a radical, os yw am sicrhau uchelgais y Gweinidog ac anghenion pobl ifanc.

## Argymhellion y Pwyllgor:

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n cwmpasu darpariaeth statudol a gwirfoddol. Dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar sut y mae'n bwriadu asesu i ba raddau y mae ei ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog mynediad agored, cyffredinol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael ei gyflawni.

**Argymhelliad 6.** O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog gomisiynu ymarfer i fapio darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol ledled Cymru. Dylid adnewyddu'r ymarfer o bryd i'w gilydd.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog sicrhau bod asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuenctid yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol fel rhan o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer defnydd awdurdodau lleol o arian ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r grant cynnal refeniw. Dylai'r fframwaith gynnwys sancsiynau os na chyflawnir y canlyniadau.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog archwilio parhad cyllid posibl Erasmus+, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gwneud hynny.

**Argymhelliad 10.**Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

# 05. Grant Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

**105.** Ar 31 Hydref 2016, cafodd cynrychiolwyr Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ohebiaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod y penderfynwyd y byddai'r grant yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Roedd yr ohebiaeth yn glir ynghylch y ffaith na fyddai'r Cyngor yn cael y grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-2018.

**106.** Ar 2 Tachwedd, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i fynegi ei bryder ynghylch y datblygiadau hyn ac i geisio eglurhad ar frys ar nifer o faterion sy'n ymwneud â'r penderfyniad na ddylai grant y Cyngor barhau.

**107.** Mae'r ohebiaeth ddilynol rhwng y Pwyllgor a'r Gweinidog ar gael ar **wefan y Pwyllgor**.

# Atodiad A – Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: **Trawsgrifiadau o gyfarfodydd**

| Dyddiad | Enw/Sefydliad |
|---|---|
| 6 Hydref 2016 | Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br>Keith Towler, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br>Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br><br>Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Barbara Howe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Jason Haeney, Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot<br>Tim Opie, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 12 Hydref 2016 | Alun Davies AM, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes<br>Kara Richards, Llywodraeth Cymru<br>Sam Evans, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad B – Tystiolaeth Ysgrifenedig

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| YW 01 | Dr Howard Williamson, Athro Polisi Ieuenctid Ewropeaidd |
| YW 02 | Her Cymru \| Llong Dal Cymru |
| YW 03 | Cyngor Sir Ynys Môn |
| YW 04 | Plant y Cymoedd |
| YW 05 | Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid (YIS) |
| YW 06 | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |
| YW 07 | Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru |
| YW 08 | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) |
| YW 09 | Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| YW 10 | YMCA Caerdydd |
| YW 11 | Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) |
| YW 12 | Estyn |
| YW 13 | Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru (NDCS) |
| YW 14 | Alun Davies, Cymrawd Ymchwil Cysylltiol |
| YW 15 | Unigolyn |
| YW 16 | Gwasanaethau Pobl Ifanc Abertawe (SYPS) |
| YW 17 | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) |
| YW 18 | Connect Cymru |
| YW 19 | Unigolyn |
| YW 20 | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| YW 21 | Chwarae Cymru |
| YW 22 | Plant yng Nghymru |
| YW 23 | Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru |
| YW 24 | ProMo-Cymru |
| YW 25 | Comisiynydd Plant Cymru |
| YW 26 | Youth Cymru |
| YW 27 | Clybiau Bechgyn a Merched Cymru |
| YW 28 | Urdd Gobaith Cymru |
| YW 29 | Unsain Cymru |
| YW 30 | Fforwm Ieuenctid Caerffili – Clwb Ieuenctid Abertysswg |

| | |
|---|---|
| YW 31 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| YW 32 | Clwb Ieuenctid Rhisga |
| YW 33 | Gwasanaeth Ieuenctid Powys |
| YW 34 | Clwb Ieuenctid Crosskeys |
| YW 35 | YMCA Abertawe |

# Atodiad C – Digwyddiad i Randdeiliaid - Dydd Mercher 28 Medi - Cynrychiolwyr

| Enw | Sefydliad |
| --- | --- |
| Rocio Cifuentes | Tîm Cefnogi Pobl Ifanc Ethnig |
| Marco Gil-Cervantes | ProMo Cymru |
| Joff Carroll OBE | Clybiau Bechgyn a Merched Cymru |
| Helen Mary Jones | Youth Cymru |
| Gareth Williams | YMCA Caerdydd |
| Carlie Scott | YMCA Abertawe |
| Andrew Templeton | YMCA Caerdydd |
| Sioned Hughes | Urdd Gobaith Cymru |
| Lefftenant Cyrnol Stephen Hughes | Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid Cymru |
| Richard Flowerdew | Sgowtiaid Cymru |
| Malcolm Latham | Sgowtiaid Cymru |
| MaryAnn Hale | Cyfnewid UNA |
| Sharon Lovell | NYAS Cymru |
| Cathie Robins-Talbot | Talking Hands |
| Sy Joshua | St John Cymru |
| Leigh Rowland | Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân |
| Dr Howard Williamson | Athro Polisi Ieuenctid Ewropeaidd - Prifysgol De Cymru |
| Claire Cunliffe | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Gayle Harris | Dr M'z, Caerfyrddin |
| Zoe Davies | Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Abergwaun ac Wdig |
| Dave Brunton | Canolfan Galw Heibio i Bobl Ifanc Senghennydd |
| Dan Wilson | Grassroots |
| Matthew Parry | Grassroots |
| Catrin James | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |

| | |
|---|---|
| Paul Glaze | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Chris Richards | Plant yng Nghymru |
| Sian Rendell | Materion Ieuenctid Milffwrd |
| Vixie Williams | Discovery |
| Eleanor Norton | Discovery |
| Helen Jones | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Grant Poiner | Clybiau Bechgyn a Merched Cymru |
| Helen Robins-Talbot | Talking Hands |
| Keith Towler | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Marianne Mannello | Chwarae Cymru |
| Judy Harris | CYTUN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) |
| Tina Simmons | Connect Cymru |

# Atodiad Ch – Cefndir polisi

## Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018

Lansiodd Llywodraeth Cymru **Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018** yn 2014, gyda'r bwriad o nodi'r cyfeiriad ar gyfer sefydliadau gwaith ieuenctid. Ei nod yw rhoi cyfarwyddyd i'r rhai sy'n cynllunio ac yn cyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid a disodli'r strategaeth flaenorol o 2007. Mae'n nodi:

> "Drwy roi'r strategaeth hon ar waith disgwylir i bartneriaid cyflawni ledled Cymru ddatblygu cynnig mwy cyson o ran gwaith ieuenctid o safon uchel i bobl ifanc, gan alluogi sefydliadau gwaith ieuenctid i weithredu fel partneriaid strategol a werthfawrogir."

Mae'n mynd ymlaen i nodi:

> "Cynigir darpariaeth gwaith ieuenctid drwy wasanaethau ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn rhan annatod o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n ceisio sicrhau bod pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yn cael y gwasanaethau, y cymorth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu potensial. Yng Nghymru mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hawl sylfaenol, sy'n agored i bob person ifanc. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gymryd rhan yn y gwaith o'u darparu."

Mae'n cyfeirio at ddogfen 2013 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion gan ddweud:

> "Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i waith ieuenctid yng Nghymru. Mae'n rhoi trosolwg o natur a dibenion arfer gwaith ieuenctid a'r dulliau cyflawni a ddefnyddir yn y maes. Cyflawnir gwaith ieuenctid drwy'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol a thrwy amrywiaeth o leoliadau a dulliau gwaith ieuenctid. Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn agored i bob person ifanc o fewn yr ystod oedran benodol 11–25."

Gan gyfeirio at ganlyniadau i bobl ifanc, mae'n nodi:

> "Mae sawl canlyniad y gall pobl ifanc ei gyflawni wrth gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid. Gellir nodi'r canlyniadau disgwyliedig i bobl ifanc o dan dair thema gyffredinol.
>
> **Cyfranogiad gweithredol:**
>
> – mae pobl ifanc yn mwynhau ac yn cyflawni
>
> – mae pobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol
>
> – mae gan bobl ifanc lais

- mae gan bobl ifanc hawl i leisio eu barn a disgwyl i'r farn honno gael ei hystyried
- mae gan bobl ifanc gwell lles
- mae pobl ifanc yn datblygu/gwella eu sgiliau ymarferol
- mae pobl ifanc yn dysgu rheoli risg.

**Datblygu sgiliau ehangach:**

- adeiladu tîm
- cyfathrebu
- datrys problemau
- gwneud penderfyniadau
- dylanwadu ar eraill.

**Lefel uwch o gymhwysedd emosiynol:**

- lefelau uwch o hyder a hunangymhelliant
- lefelau uwch o hunanymwybyddiaeth, cymhelliant a hunan-barch
- y gallu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau – dangos empathi tuag at bobl eraill ac ystyriaeth ohonynt."

Yn fwy diweddar, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi eto.

## Siarter Cymru Gwaith Ieuenctid Cymru

Lansiodd Llywodraeth Cymru **Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru** yn 2016, ac mae'n nodi'r isafswm disgwyliad ar gyfer gwaith ieuenctid i bobl ifanc ledled Cymru. **Dywedodd** Julie James AC, a oedd yn Weinidog ar y pryd, fod y Siarter wedi'i hysgrifennu o safbwynt person ifanc yn hytrach na darparwyr gwasanaethau. Mae dogfen 'Datblygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru' Llywodraeth Cymru yn nodi'r Siarter:

"Bydd gan bob person ifanc hawl i gael mynediad rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg at:

- Fannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd parhaus, gweithgareddau hamdden cyffrous ym meysydd celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd a fydd yn ehangu eu gorwelion.
- Cyfleoedd i gyfranogi mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol.

- Cyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol (e.e. meiri ifanc, cynghorau ieuenctid a'r Senedd). Dylai trefniadau o'r fath gyfeirio'n eglur at safonau cyfranogi; dylent fod yn seiliedig ar egwyddorion CCUHP; a dylent geisio ennyn diddordeb pobl ifanc yn y gwaith o lywio a chraffu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.
- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n eu pryderu, yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol. Gellir defnyddio'r gwasanaeth trwy gyfrwng cyfryngau digidol a thrwy law oedolion dibynadwy a hyfforddedig.
- Anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.
- Darpariaeth gydgysylltiedig gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y 'cynnig i ddisgyblion' ac felly cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol.
- Cyfleoedd i fod yn ymgyrchwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli.
- Cydnabod a /neu achrediad eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned hefyd.

Yn ei datganiad ysgrifenedig i lansio'r Siarter, dywedodd Julie James:

> "Er mwyn sicrhau gweithredu'r Siarter bydd angen gwneud newidiadau o ran sut y caiff y system ei llywodraethu ac ariannu. Felly rwyf wedi gofyn i fy swyddogion dechrau archwilio sefydlu Fframwaith Cymorth a Datblygu Pobl Ifanc yng Nghymru, Fframwaith fydd yn ystyried datblygu corff strategol cynrychioliadol ar draws gwasanaethau ieuenctid. Gan ddechrau ar lefel genedlaethol bydd y Fframwaith Cymorth yn adeiladu ar drefniadau presennol, trwy ddod a'r cyfeiriad strategol, y cynllunio, adnoddau a chasglu data at ei gilydd."

## Nod Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru

Y Nod Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, a lansiwyd yn 2015, yw'r dyfarniad ansawdd a gaiff ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru. Gall sefydliadau wneud cais amdano drwy broses hunanasesu, sydd yna'n destun asesiad allanol. Dywed Llywodraeth Cymru fod y Nod Ansawdd yn darparu asesiad cadarn, annibynnol, allanol o ansawdd a pherfformiad sefydliadau sy'n cyflawni gwaith ieuenctid. Mae'r Nod Ansawdd yn cynnwys tair lefel: Efydd, Arian ac Aur. Mae pedwar Safon Ansawdd o fewn pob lefel, gyda phob un yn cynnwys tri dangosydd cysylltiedig. Ym mis Mehefin 2016, dyfarnwyd y contract i ddarparu'r Nod Ansawdd tan fis Mawrth 2018 i Atkin Associates.